CfER 06/10/2014
Papur i'w nodi

Cyngor Adnewyddu'r Economi

# Datblygu Fframwaith Economaidd Cyngor Adnewyddu'r Economi a Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb i aelodau'r Cyngor o'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu dogfennau Fframwaith Economaidd Cyngor Adnewyddu'r Economi a Fframwaith Blaenoriaethu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), ac yn nodi meysydd sy'n cyd-fynd a themâu cyffredin.

## Cefndir

*Fframwaith Economaidd*

2. Yng nghyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi ar 3 Mehefin 2013 cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y papur a gyflwynwyd gan TUC Cymru, Tuag at Strategaeth Ddiwydiannol i Gymru. Arweiniodd hyn at drafodaeth gychwynnol ar fframwaith economaidd.

3. Mewn ymateb i hyn, bu Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Partneriaid Cymdeithasol i lunio dogfen y Fframwaith Economaidd, a fydd yn cael ei defnyddio i lywio gwaith y Cyngor.

*Fframwaith Blaenoriaethu WEFO*

4. Yn 2012, gofynnwyd i Dr Graham Guilford adolygu trefniadau rheoli a gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Roedd ei ganfyddiadau'n cynnwys argymhelliad i ddatblygu Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd a fyddai'n nodi meysydd lle gall Cronfeydd Strwythurol gyfrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol a synergaidd at bolisi datblygu economaidd cyffredinol Llywodraeth Cymru.

5. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, mae WEFO wedi datblygu dogfen Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, a'i chyhoeddi ar ei gwefan. Bydd y ddogfen yn cael ei defnyddio i lywio'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol drwy ddarparu cyd-destun buddsoddi ehangach, sy'n cyd-fynd â phrif feysydd cyfleoedd economaidd.

## Crynodeb o'r dull datblygu

6. Paratowyd y Fframwaith Economaidd a dogfen WEFO gyda chyfraniad gan swyddogion polisi a chyflawni ledled Llywodraeth Cymru i sicrhau bod

y dogfennau'n cyd-fynd â blaenoriaethau, polisïau a strategaethau allweddol.

7. Yn ogystal, lluniwyd dogfen WEFO yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid rhanbarthol, a'r Fframwaith Economaidd, ar y cyd â'r Partneriaid Cymdeithasol.

8. Mae'r dull hwn o weithio ar y cyd i ddatblygu'r dogfennau wedi bod yn hanfodol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'n llawn ac yn hyrwyddo gweithgarwch a fydd yn cyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth i sicrhau swyddi a thwf.

**Themâu cyffredin / tebygolrwydd**

9. Er bod yna ofynion gwahanol ar gyfer llunio dogfen WEFO a'r Fframwaith Economaidd mae yna themâu cyffredin rhwng y ddwy ddogfen sy'n adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi'u datblygu ar y cyd, yn cynnwys:

*Statws a chynnwys*

10. Datblygwyd y Fframwaith Economaidd i lywio gwaith Cyngor Adnewyddu'r Economi ac i sicrhau gwell dealltwriaeth o bolisïau a chamau gweithredu i annog swyddi a thwf. Yn yr un modd, lluniwyd dogfen WEFO i roi gwell dealltwriaeth o'r portffolio buddsoddi cyfredol i ddarparwyr prosiectau posibl yr UE a sut mae'r rheiny'n cyd-fynd â'r prif gyfleoedd thematig a daearyddol ar gyfer twf economaidd.

11. Yn ogystal, mae'r ddwy ddogfen yn fyw a byddant yn esblygu dros amser er mwyn parhau i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ar weithgareddau a buddsoddiadau allweddol.

*Canolbwyntio ar flaenoriaethu ac ychwanegu gwerth*

12. Mae'r ddwy ddogfen yn cydnabod bod angen gwneud penderfyniadau anodd, ac er mwyn i weithgarwch y dyfodol gael effaith ystyrlon bydd angen i fuddsoddiadau ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol a gweithredu mewn ffordd fwy integredig gyda chyfleoedd allweddol yng Nghymru.

13. O ganlyniad, mae dogfen y Fframwaith Economaidd yn amlinellu naratif clir ar gyfer blaenoriaethau economaidd sy'n adlewyrchu amgylchedd economaidd Cymru. Mae'n canolbwyntio ar feysydd lle bydd ymyrraeth yn ychwanegu gwerth i helpu i lunio'r darlun economaidd ar gyfer Cymru.

14. Bydd dogfen WEFO yn blaenoriaethu gweithgarwch hefyd, ac yn canolbwyntio buddsoddiadau'r UE ar ddeg cyfle economaidd yng Nghymru, rhai thematig a rhanbarthol. Bydd angen i brosiectau posibl yr UE ddangos eu bod yn cyd-fynd ac yn ategu'r cyfleoedd hyn. Mae'r cyfleoedd yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru.

Bydd defnyddio'r ddogfen yn ystod proses arfarnu'r UE yn sicrhau y bydd prosiectau a gefnogir gan gronfeydd strwythurol yn ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau cyfredol ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau.

*Dimensiwn gofodol*

15. Mae'r Fframwaith Economaidd yn cydnabod pwysigrwydd dull datblygu economaidd gofodol, a rôl mentrau allweddol Llywodraeth Cymru megis dinas-ranbarthau ac ardaloedd menter ar gyfer sicrhau swyddi a thwf.

16. Mae dogfen WEFO yn pwysleisio'r angen am ddull gofodol hefyd, ac yn nodi tri chyfle rhanbarthol i Gymru. Cafodd pwysigrwydd gweithgarwch datblygu gofodol Llywodraeth Cymru, megis dinas-ranbarthau, ei ystyried wrth lunio'r adrannau hyn.

Canolbwyntio ar ganlyniadau

17. Mae'r ddwy ddogfen yn cydnabod pwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau, a'r angen i sicrhau bod gweithgarwch y dyfodol yn sicrhau'r effaith orau bosibl.